OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1216

# Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

## RHAN 3

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio

**Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015**

**18.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1—

(a) yn Rhan 1, colofn 1, adran 'P', ar ôl "Reoliad (EC) Rhif 440/2008" mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

(b) yn Rhan 4—

(i) ym mharagraff 11(1), ar ôl "chyflenwyr erosol", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

(ii) ym mharagraff 13(a), ar ôl "gwrteithiau" mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

(iii) ym mharagraffau 14 ac 16(b), ar ôl "Reoliad (EC) Rhif 2003/2003", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

(3) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6(a), yn lle "Erthygl 3(1)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1102/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wahardd allforio mercwri metelaidd a chyfansoddion a chymysgeddau penodol mercwri a storio mercwri metelaidd yn ddiogel" rhodder "Erthygl 13(1) o Reoliad (EU) 2017/852 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri, ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1102/2008(**2**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 18 mewn grym ar 17.12.2018, gweler **rhl. 1(3)**

(**1**) O.S. 2015/1597 (Cy. 196), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) OJ Rhif L 137, 24.5.2017, t. 1.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018, Adran 18.